

Sut i ysgrifennu...

Cyflwyniad

Pwysig!

Gwiriwch ganllawiau neu gyfarwyddiadau aseiniad eich adran i gael arweiniad pellach ar gyflwyniadau.

1. Cynllunio

Amcanion y cyflwyniad:

- Diffiniwch eich nodau a beth yw pwrpas y cyflwyniad.
- Ewch yn ôl i ddarllen cwestiwn yr aseiniad dro ar ôl tro.

Targedu'r gynulleidfa:

- Adnabod at bwy rydych chi'n cyflwyno.
- Bydd cyflwyniad a diwedd glo da yn rhoi ffocws i'ch gynulleidfa.

Dewis cynnwys:

- Penderfynwch beth i'w gynnwys.

Gwirio amser:

- Asewch amseriad y cyflwyniad.

Cymhorthion gweledol:

- Penderfynwch ar ddelweddau cefnogol.

2. Paratoi

- Archwiliwch eich pwnc yn drylwyr.
- Darganfyddwch faint o amser sydd gennych ar gyfer eich cyflwyniad.
- Sicrhewch fod eich cyflwyniad yn cynnwys tystiolaeth a rhestr gyfeirnod.
- Cadarnhewch lle bydd y cyflwyniad yn digwydd. Os yw'n lleoliad anghyfarwydd, cyfarwyddwch â beth sydd ar gael.
- Ystyriwch pa adnoddau y bydd eu hangen arnoch ar gyfer eich cyflwyniad.
- Os ydych chi'n gweithio mewn grŵp, cysylltwch â nhw.
- Penderfynwch pwy fydd yn gyfrifol am bob rhan o'r cyflwyniad.
- Cytunwch ar yr arddull a'r naws gyffredinol rydych chi ei eisiau.

3. Ymarfer

Ymarfer, ymarfer, ymarfer! Mae mor syml â hynny.

- Beth am wahodd ffrind i fod yn gynulleidfa i chi er mwyn i chi gael rhywfaint o adborth?
- Siaradwch yn naturiol yn hytrach nag adrodd.
- Defnyddiwch eiriau cyfarwydd i osgoi baglu.
- Gwiriwch amseriad pob rhan o'r cyflwyniad.
- Recordiwch eich hun am hunanasesiad.
- Adolygwch a mireiniwch wrth i chi fynd ymlaen.

4. Cyflwyno

- Peidiwch â darllen eich cyflwyniad gair am air - defnyddiwch gardiau ciw neu rhowch eich nodiadau ar un ddalen o bapur fel ysgogiadau.
- Gwnewch gyswllt llygaid â'ch cynulleidfa.
- Dangoswch brwdfrydedd i ennyn diddordeb eich cynulleidfa.
- Byddwch yn hyderus o ran siarad a fel rydych yn sefyll i gyflwyno.
- Defnyddiwch eich llais yn effeithiol trwy ymarfer eglurder a thafluniad.
- Rheolwch eich cyflymder i osgoi rhuthro a helpu dealltwriaeth.



Paratoi ar gyfer sesiwn Cwestiwn ac Ateb ar y diwedd

- Byddwch yn barod ymlaen llaw - meddyliwch am yr hyn y gellid gael ei ofyn i chi.
- Ewch ati i ymarfer eich ymatebion.
- Gwrandewch yn ofalus cyn ateb - rhowch eiliad i chi'ch hun i feddwl am eich ateb.
- Byddwch yn onest yn eich ateb os nad ydych yn siŵr.

Delio â nerfau

- Mae paratoi yn hanfodol! Os ydych wedi paratoi, bydd hyn yn helpu i leihau pryder.
- Gweld cyswllt llygaid yn heriol? Edrychwch ar frig pennau eich cynulleidfa. Mae hyn yn rhoi'r argraff o gyswllt llygaid.
- Cadwch i gynnal meddylfryd cadarnhaol.
- Defnyddiwch dechnegau ymlacio sy'n gweithio i chi.
- Mwynhewch y profiad!